CYFARFOD

# Cofnodion Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru: Medi 2019

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019, Trefforest.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Gorffennaf 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Agor y cyfarfod

Adroddiadau, cymeradwyaeth a phenderfyniadau

Trafodaeth y Bwrdd

Cau’r cyfarfod

# Yn bresennol

## Aelodau

- Kathryn Bishop, Cadeirydd
- Dyfed Edwards, Is-gadeirydd
- Jocelyn Davies, Anweithredol
- Lakshmi Narain, Anweithredol
- Dyfed Alsop, Prif Weithredwr (mynychodd eitemau 11 a 13 yn unig)
- Sean Bradley, Prif Swyddog Cyfreithiol a Pholisi
- Sam Cairns, Prif Swyddog Gweithredu
- Lucy Robinson, Mewnwelediad a Strategaeth Cwsmeriaid

## Ymgynghorwyr

- Joanna Ryder, Pennaeth Staff
- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru (TC)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Mynychwyr

- Jim Scopes, Prif Swyddog Strategaeth (dros dro)
- Teresa Platt, Prif Swyddog Cyllid
- Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

## Ysgrifenyddiaeth

- Matthew Deaves, Ysgrifenyddiaeth

# Agor y cyfarfod

## 1. Croeso a chyflwyniadau, gwrthdaro buddiannau ac ymddiheuriadau, cofnodion y cyfarfod diwethaf, materion yn codi

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod.
2. Cafwyd ymddiheuriadau gan David Jones.
3. Aeth y Bwrdd drwy'r cofnod o wrthdrawiadau buddiannau aelodau a datganwyd nifer o newidiadau. Caiff y cofnod ei anfon at yr aelodau ar ôl y cyfarfod er mwyn iddynt ei ddiweddaru.
4. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod llawn a chywir.
5. Trafodwyd y camau a oedd heb eu gweithredu a chytunwyd y byddai 5 yn aros ar agor.
6. Nid oedd unrhyw faterion pellach yn codi

# Adroddiadau, cymeradwyaeth a phenderfyniadau

## 4. Adroddiad gan y Cadeirydd

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 5. Adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau

### Archwilio a Sicrwydd Risg

1. Cytunwyd ar yr adroddiadau a'r cyfrifon blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf, a nodwyd bod y broses adroddiadau a chyfrifon gyntaf hon wedi mynd yn dda iawn a'i bod yn llwyddiant.

2. Cafodd cyfarfod mis Medi ARAC ei ganslo am wahanol resymau, ac ymdriniwyd â materion yn electronig. Nodwyd hefyd fod gennym archwilwyr mewnol newydd o ganlyniad i gael archwilwyr newydd a newid mewn ysgrifenyddiaeth ers i Richard Bettley adael am swydd newydd yn Llywodraeth Cymru. Diolchodd Cadeirydd ARAC i Richard am ei holl waith caled yn sefydlu ARAC a'i waith ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y gallai ysgrifenyddiaeth ARAC weithio yn y dyfodol. Caiff cyfarfod nesaf y Pwyllgor ei gynnal fis Tachwedd.

3. Mae trafodaethau briffio cychwynnol gyda'r archwilwyr newydd eisoes ar y gweill.

### Pwyllgor Pobl

4. Nid yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a bydd yn cyfarfod eto ym mis Hydref.

5. Mae un mater wedi'i drafod y tu allan i'r pwyllgor: staff yn gweithio ar ddau safle ac oblygiadau hynny.

6. Atgoffwyd y Bwrdd bod nifer fechan aelodau'r Pwyllgor hwn oherwydd natur sensitif rhai o'r materion a drafodir ond y dylid dosbarthu a thrafod papurau'r Pwyllgor fel y bo'n briodol.

## 6. Adroddiadau Bynyddol y Pwyllgor Pobl

1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad blynyddol yn ffurfiol gan y Pwyllgor Pobl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 7. Adroddiad y Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

## 8. Dogfen Fframwaith

1. Mae'r Bwrdd wedi cael cyfle o'r blaen i roi sylwadau ar y ddogfen hon ac mae'r sylwadau hynny wedi cael eu hystyried; mae'r derminoleg wedi'i symleiddio er bod y ddogfen yn dal i gyfeirio at gynllun corfforaethol 19-22 a'r llythyr cylch gwaith cyfredol.
2. Cafwyd trafodaeth am unrhyw newidiadau pellach yr hoffai'r Bwrdd eu gweld yn cael eu gwneud. Pwysleisiwyd mai fframwaith yw'r ddogfen ac y dylai ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd ac nad yw yno i adlewyrchu pob posibilrwydd. Mae 3 newid yr hoffai'r Bwrdd eu gweld yn cael eu gwneud i'r ddogfen hon:

    - 2.27 Teimlwyd y gallai'r paragraff hwn awgrymu bod gan y Gweinidog fynediad at ddata trethdalwyr eisoes – nad oes ganddynt – ac argymhellwyd y dylid dileu'r paragraff hwn.
    - 3.7 Y dylid newid y paragraff hwn fel ei fod yn ei gwneud yn glir nad yw'r archwilwyr yn aelodau o ARAC ond eu bod yn mynychu ARAC fel arsylwyr.
    - 5.0 Dylai'r paragraff hwn hefyd gynnwys gohebiaeth gyffredinol nid llythyrau gan Aelodau'r Cynulliad yn unig.

3. Cymeradwyodd y Bwrdd y fframwaith hwn yn amodol ar y newidiadau uchod.

# Trafodaeth y Bwrdd

## 9. Diweddariad am y prosiect Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 10. Cynlluniau newid Digidol

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

## 11. Adroddiad y Prif Weithredwr

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

## 12. Perfformiad ariannol

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

## 13. Cynllunio ariannol

1. Cafodd y Bwrdd drafodaeth am ofynion cyllidebol y sefydliad yn y dyfodol a'i gyfranogiad yng nghylch cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru. Bydd y Prif Weithredwr yn parhau i weithio ar y mater hwn yng ngoleuni'r drafodaeth hon yn barod ar gyfer cyfarfod gyda Thrysorlys Cymru a'r Gweinidog.

## 14. Diweddariad amcan dylunio

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

## 15. Diwrnod cwrdd i ffwrdd a chamau nesaf y Bwrdd

1. Cafwyd trafodaeth ar y 2 gynnig a wnaed i'r Bwrdd gan y Cadeirydd.

2. Y cynnig cyntaf gan y Cadeirydd oedd bod nifer o Ymgynghorwyr yn dychwelyd i gyfarfodydd y Bwrdd, sef rhai o aelodau'r Tîm Arwain a'r Pennaeth Cyfathrebu.

3. Yr ail gynnig gan y Cadeirydd oedd y dylid parhau â'r strwythur o amcanion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unigol ar gyfer aelodau anweithredol ac Aelod Staff Etholedig y Bwrdd, gan nodi bod hyn yn ffordd o sicrhau trosolwg y Bwrdd dros rai materion na fyddai'n digwydd fel arall o bosib, ac yn ffordd o greu ymgysylltiad adeiladol rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol a'r Aelod Staff Etholedig sydd ag arbenigedd penodol i'w gynnig yn y meysydd hyn.

4. Cytunodd y Bwrdd ar y 2 gynnig.

5. Nodwyd bod y Prif Weinidog yn cefnogi cyflwyno cynrychiolwyr Undebau Llafur i eistedd ar fyrddau yng Nghymru.

# Cau'r cyfarfod

## 16. Unrhyw fater arall

1. Nid oedd unrhyw fater arall.

## 17. Rhagolwg

1. Dylid gwneud rhagor o waith ar y Rhagolwg er mwyn cysoni'r Rhagolwg rhwng y Bwrdd, yr ARAC a'r Pwyllgor Pobl. Caiff fersiwn ddiweddaraf y Rhagolwg ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod hwn.

## 18. Adolygiad o'r cyfarfod

Gwybodaeth wedi'i Golygu (**Troednodyn 1**).

**[1]** Mewn rhai amgylchiadau, nid yw'n briodol rhannu'r holl wybodaeth a gafodd ei chynnwys yng nghofnodion y Bwrdd, er enghraifft os yw'n cynnwys data personol neu fasnachol neu os yw'n gysylltiedig â ffurfio polisi llywodraeth ac ati neu gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol. Mewn achosion o'r fath, tynnwyd yr wybodaeth allan a marciwyd yn glir ar y testun mai dyma sydd wedi digwydd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cofnodion Bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru: Medi 2019** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cofnodion-bwrdd-awdurdod-cyllid-cymru-medi-2019-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.